“Am hynny rwy’n dweud wrthych y cymerir teyrnas Dduw oddi wrthych chwi, ac fe’i rhoddir i genedl sy’n dwyn ei ffrwythau hi.”
(Mathew 21:43)

Daw’r geiriau hyn ar ddiwedd dameg arall o fywyd bob dydd gan Iesu sydd yn cynnwys rhybudd llym i arweinwyr a chenedl yr Iddewon eu bod ar fin colli’r fraint aruthrol o fod yn warchodwyr teyrnas Dduw yn y byd, oherwydd eu bod wedi camddefnyddio’u breintiau a gwrthod Mab Duw, yn arbennig.

Gwinllan a roddwyd

Mae Iesu’n defnyddio’r darlun o winllan yn cael ei gosod i denantiaid i ddarlunio cyfrifoldeb a braint Israel gerbron Duw. Mae adlais yma o Eseia 5.1-7 lle mae Duw yn defnyddio darlun y winllan am Israel. Ond yn y ddameg yma mae newid pwyslais, oherwydd nid Israel yw’r winllan ond teyrnas Dduw. Dyma esboniad Iesu ei hun yn adnod 43 uchod. Mae Israel o bawb ar fin colli’r winllan, sef y deyrnas.

Roedd Israel wedi derbyn Cyfraith Duw a’r ordinhadau. Roedd y Gyfraith seremonïol gyda’r aberthau a’r golchiadau a manylion y deml yn gysgod o’r Gwaredwr a’r nefoedd. Roedd Gwaredwr y byd i ddod fel un o’u llinach nhw. Roedd y Deg Gorchymyn yn batrwm o fywyd i’r sawl oedd mewn cyfamod â’r Duw a’u gwaredodd o’r Aifft. Roeddent yn blant y cyfamodau ac addewidion Duw. Y genedl yma oedd cyfrwng Duw i’w ddatguddio’i hun i’r byd.

Mae nifer o Gymry wedi defnyddio darlun y winllan i sôn am ein gwlad a’n diwylliant, ac mae’r trosiad yn gweithio’n dda. Mae neges y ddameg arbennig yma, serch hynny, yn wahanol, sef ein bod ni a’n diwylliant yn denantiaid ar Air Duw a’i Efengyl ogoneddus. Mae Cymru wedi cael y fraint a’r cyfrifoldeb yna, ond tybed na allwn ddweud ein bod ni, fel yr Iddewon, wedi bod yn denantiaid anghyfrifol, a bod ein diwylliant mewn perygl o fod yn gragen wag os collwn afael ar yr Efengyl a’i thrysorau.

Tenantiaid

Cenedl, ac arweinwyr cenedl Israel, felly, oedd y tenantiaid yn y ddameg yma. Roedd disgwyl i denantiaid gwinllan ofalu am y gwaith i gyd, ac yna dod â chanran arbennig o’r ffrwythau i’r perchennog. Dyna pam roedd gweision y perchennog yn dod i dderbyn ffrwythau yn adnod 34. Nid y ffrwythau i gyd, fel arfer, ond canran gytunedig.

Mae ystyr hyn yn amlwg o safbwynt Israel a’r deyrnas: roedd Duw yn

disgwyl i'w bobl ymddwyn mewn ffordd arbennig, ac i fyw fel pobl Dduw yn y byd. Arweinwyr y genedl sydd yn derbyn cerydd Jehofa yn aml iawn. Gallai'r proffwydi fod yn gau ac yn llefaru geiriau esmwyth o heddwch i'r bobl pan oedd Duw ei hun yn anhapus iawn â nhw (Jer.6.14); gallai'r offeiriaid fod yn ddi-hid a chaniatáu aberthu'r cloff a'r anafus yn hytrach nag aberthau glân, yn ôl cyfarwyddyd y Gyfraith (Mal.1.6-14). Gallai brenhinoedd wneud yr hyn oedd ddrwg yng ngolwg yr Arglwydd (1 Bren.16:30).

Gweision

Gweision Duw oedd y gwir broffwydi oedd yn ceisio dwyn Gair Duw i'w bobl. Yn gyson iawn, cafodd y rhain eu gwrthod a'u herlid gan y genedl. Bu Elias yn cuddio am flynyddoedd ar ôl cyhoeddi Gair Duw am y sychder yn y tir. Dywed traddodiad fod Eseia wedi ei dorri'n ddau â llif bren. Cafodd Jeremeia'i gamdrin yn gyson fel nifer o'r lleill. Roedd gwrthod gwir broffwydi Duw yn rheol, nid yn eithriad.

Y Mab a'r maen

Wrth ddweud bod y perchennog wedi anfon ei unig fab, mae'n amlwg bod Crist yn cyfeirio at y Tad nefol. Mae'n amlwg ei fod yn gwybod y caiff ei wrthod a'i ladd yn y pendraw. Mae amynedd a chariad Duw yn amlwg ym mherson y perchennog. Gwaetha'r modd, mae balchder a gwrthryfel y tenantiaid yn eu harwain i ladd yr etifedd gan feddwl meddiannu'r winllan, heb gofio bod y perchennog yn dal yn fyw ac yn siŵr o ddial arnynt.

Yna mae Iesu'n defnyddio darlun o Salm 118 wrth ei ddisgrifio'i hunan fel maen. Mae carreg fawr yn dramgwydd i'r gweithwyr wrth adeiladu. Ond mewn amser, wrth chwilio am y brif-gonglfaen, dyna'r maen oedd yn ffitio i'r dim. Cyfeirio at Israel fel cenedl yn y byd roedd y Salm, ond mae Iesu'n sôn am ei hunan yn nheyrnas Dduw. Pwy bynnag sy'n ei wrthod Ef, ni all fod yn rhan o'r deyrnas, oherwydd Ef yw'r conglfaen hanfodol sydd yn cloi'r cyfan.

Rhaid i ni gofio heddiw bod cau Crist allan o'n diwylliant, ein bywyd a'n calonnau, yn gamgymeriad anferth, oherwydd ef yw sylfaen a chonglfaen teyrnas Dduw yn y byd. Gallwn wrthod y Mab, ond mi fydd yn amhosibl i osgoi'r Tad.